# Adroddiad Drafft ar Fuddion Cydweithredol ar gyfer Ymgynghori Statudol

Hydref 2024

Prosiect Maen Hir

Solar a Storio Ynni






# 1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Drafft hwn ar Fuddion Cydweithredol wedi cael ei baratoi ar ran Lightsource SPV 204 Ltd (yr Ymgeisydd) i gefnogi cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO) a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol yn yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net o dan Adran 37 o Ddeddf Cynllunio 2008. Mae Prosiect Maen Hir (y Prosiect) yn cynnwys adeiladu, gweithredu a datgomisiynu gorsaf gynhyrchu ffotofoltaidd solar (PV) gyda chapasiti dros 350 megawat (MW), gyda datblygiadau cysylltiedig yn cynnwys System Storio Ynni Batri (BESS), Is-orsaf y Prosiect, a Phrosiect Solar Cymunedol ar Ynys Môn, Cymru.

Mae'n ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu mewn ymateb i ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned. Mae'n rhoi crynodeb o'r ymgysylltu hyd yma ynghylch y manteision sy'n gysylltiedig â'r Prosiect. Bydd fersiwn derfynol o'r ddogfen yn cael ei chyflwyno gyda'r Cais llawn.



# 2. Yr Angen am y Prosiect

Mae tystiolaeth glir bod newid yn yr hinsawdd yn digwydd a bod angen gweithredu ar frys. Yn 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru1 a Llywodraeth y DU2 argyfwng hinsawdd gan geisio sicrhau newidiadau trawsnewidiol cyflym ar draws pob agwedd ar gymdeithas er mwyn osgoi effeithiau niweidiol hirdymor. Bydd darparu seilwaith adnewyddadwy yn cyfrannu at hyn drwy gynhyrchu pŵer carbon isel cynaliadwy.

Mae polisïau, uchelgeisiau a datganiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol clir sy'n cefnogi'r newid i economi carbon isel er mwyn gweithredu ar newid yn yr hinsawdd. **Gan fod y Prosiect yn ddatblygiad ynni adnewyddadwy, bydd yn helpu Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gadw at eu targedau cyfreithiol rwymo**[3].

Mae Strategaeth Ynni Gogledd Cymru[4] a Fframwaith Ynys Ynni Môn[5] yn darparu dulliau pwrpasol i gyflymu'r broses o newid i economi sero net. Mae'r strategaethau hyn yn rhoi blaenoriaeth i ynni adnewyddadwy a charbon isel, gan anelu nid yn unig at leihau allyriadau ond hefyd at ysgogi gweithgarwch economaidd a chreu swyddi gwyrdd yn eu hardaloedd.

1 https://www.gov.wales/welsh-government-makes-climate-emergency-declaration

2 https://www.parliament.uk/business/news/2019/may/mps-debate-the-environment-and-climate-change/

3 https://assets.publishing.service.gov.uk/media/6569cb331104cf000dfa7352/net-zero-government-emissions-roadmap.pdf

4 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2021-11/regional-energy-strategy-north-wales.pdf

5 https://www.anglesey.gov.wales/en/Business/Energy-Island%E2%84%A2-Isle-of-Anglesey-North-Wales/What-is-Energy-Island%E2%84%A2.aspx





# 2. Yr Angen am y Prosiect

Dros y 25 mlynedd diwethaf, mae Ynys Môn wedi wynebu heriau economaidd sylweddol wrth i'w heconomi fynd i'r afael â dad-ddiwydiannu graddol, gostyngiad mewn swyddi amaethyddol a cholli cyflogwyr mawr allweddol ar yr Ynys. Mae Cyngor Sir Ynys Môn wedi ceisio mynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu'r rhanbarth ers tro byd drwy sefydlu system a all sicrhau ffyniant hirdymor. Ym mis Ionawr 2019, mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Gynllun Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn[6] i helpu i greu cyfleoedd ar gyfer swyddi a buddsoddiad cynaliadwy.

Mae'r cynllun yn nodi themâu blaenoriaeth sy'n ymwneud â chyflogaeth, twristiaeth, trafnidiaeth a chysylltedd, tai ac adfywio trefol a'r amgylchedd, diwylliant a llesiant. Mae'r blaenoriaethau sy'n seiliedig ar y thema cyflogaeth yn tynnu sylw at yr angen i helpu busnesau presennol i gyflawni eu potensial, cefnogi cyfleoedd datblygu economaidd gwledig a mynd i'r afael ag anghenion sgiliau, cymwysterau a chyflogadwyedd.




6 https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Business/Regeneration/North-Anglesey-Economic-Regeneration-Plan.pdf

# 3. Cyd-destun Polisi er Buddion Cymunedol

Yn 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Ddatganiad Polisi o'r enw 'Perchnogaeth Leol ar Gynhyrchu Ynni yng Nghymru'[7]. Bwriad y Datganiad Polisi yw cadw buddiant cymdeithasol ac economaidd o ddatblygiadau seilwaith ynni y dyfodol yng Nghymru. Cafodd fersiwn arall o'r ddogfen hon ei rhyddhau yn 2022, o dan yr un teitl (Perchnogaeth leol a rhanberchnogaeth ar brosiectau ynni yng Nghymru[8]). **Roedd hon yn argymell defnyddio Adroddiadau Buddion Cydweithredol fel adnodd lle dylai ceisiadau ddangos manteision economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol llawn datblygu.**

Un o'r ffyrdd y mae'n ceisio cyflawni hyn yw sicrhau elfen o berchnogaeth leol neu gymunedol ar brosiectau ynni newydd, er mwyn cadw cyfoeth yng Nghymru a darparu budd gwirioneddol i gymunedau lleol ledled Cymru.

Mae'r datganiad polisi yn datgan:

*"... rydym yn gobeithio gweld amrywiaeth eang o fanteision anariannol yn deillio o ddatblygiadau megis: gostyngiad mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr, mwy o gydlyniant cymdeithasol, grymuso, cydnerthedd, llesiant cymdeithasol, datblygu sgiliau trosglwyddadwy, a hyrwyddo ymwybyddiaeth ehangach o faterion ynni a newid yn yr hinsawdd."*

7 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-02/policy-statement-local-ownership-of-energy-generation-in-wales.pdf

8 https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2022-06/guidance-local-and-shared-ownership-of-energy-projects-in-wales_0.pdf







# 3. Cyd-destun Polisi er Buddion Cymunedol

Ym mis Tachwedd 2021, mabwysiadodd Cyngor Sir Ynys Môn ei Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol (2021)[9] wa sefydlodd 'Yr Egwyddor o Agosrwydd'. Roedd hyn yn cydnabod y dylai manteision sy'n deillio o gynigion datblygu fel ynni adnewyddadwy gael eu cyfeirio'n ddaearyddol at ardaloedd gan ystyried lefel yr effaith y byddant yn ei phrofi; dylai lefel unrhyw effaith a ddisgwylir mewn cymuned gael ei hadlewyrchu yng nghyfran y buddion a ddarperir i'r gymuned honno.

Gan roi sylw i bolisi cenedlaethol Cymru, Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol (2021), mae Polisi 17 yn argymell bod yn rhaid i ymgeiswyr ddisgrifio'r manteision net a ddaw yn sgil datblygiad arfaethedig o ran gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ar lefel leol.

TBydd y Prosiect yn darparu manteision cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Mae'r Adroddiad Drafft ar y Buddion Cydweithredol yn adnodd i wella'r cysylltiad a'r ddealltwriaeth rhwng y broses ddatblygu a rhanddeiliaid ac mae'n ceisio sefydlu pa fanteision y gellid eu cyflawni dros gamau'r Prosiect mewn termau meintiol ac ansoddol. Mae'n ystyried y polisi lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn sail ar gyfer ymgysylltu pellach a datblygu'r manteision sydd hefyd yn ymateb i Egwyddor o Agosrwydd y Cyngor Sir.




9 https://www.anglesey.gov.wales/documents/Docs-en/Business/Energy-Island/Community-Benefit-Contributions-Strategy.pdf

# 4. Ymgynghori ac Ymgysylltu

Wrth baratoi'r cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu, mae'r Ymgeisydd wedi ymgynghori ac ymgysylltu ag amrywiaeth o ymgyngoreion i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o effeithiau posibl y Prosiect a llywio mesurau lliniaru a gwella. Mae'r ymgysylltu hwn wedi cyfrannu at yr Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol sy'n cofnodi effeithiau amgylcheddol arwyddocaol tebygol y Prosiect ar hyn o bryd. Drwy ymgysylltu parhaus, mae'r Ymgeisydd yn ceisio datblygu strategaethau lliniaru sy'n manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i sicrhau manteision net ehangach.

**Fel rhan o ymrwymiad yr Ymgeisydd i gynnal deialog agored a thryloyw gyda'r gymuned leol, mae'r Ymgeisydd yn cyhoeddi'r Adroddiad Buddion Cydweithredol drafft hwn yn ystod y cam ymgynghori statudol ac yn gofyn am sylwadau ar ei gynnwys.**

Mae'r Ymgeisydd o'r farn y gellir, drwy'r fforwm hwn, gwireddu manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sy'n adlewyrchu anghenion a dymuniadau'r gymuned.





# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

Bydd y Prosiect yn gweithio'n rhagweithiol gyda Chyngor Sir Ynys Môn a chymunedau lleol i sicrhau buddion lle'r ystyrir bod yr effeithiau'n fwy. Datblygwyd yr Adroddiad Buddion Cydweithredol yn unol â Strategaeth Cyfraniadau Budd Cymunedol Cyngor Sir Ynys Môn.

Mae nifer o fuddion wedi cael eu nodi fel rhan o'r Prosiect. Ar y cam hwn yn y broses, dyma'r manteision a ragwelir o'r Prosiect:

**Cynhyrchu Ynni ac Arbedion Carbon**

Bydd y Prosiect yn cynhyrchu trydan carbon isel ar gyfer **tua 140,000 o gartrefi** bob blwyddyn ac yn gwrthbwyso tua **70,000 tunnell o allyriadau carbon bob blwyddyn (**yn dibynnu ar gyfansoddiad y mathau o danwydd (nwy, niwclear, ynni adnewyddadwy ac ati) wrth gynhyrchu ynni yn y DU ar adeg yr amcangyfrif), gan helpu i drawsnewid i economi ynni carbon isel (mae hyn yn cael ei asesu ar draws cyfnod gweithredol o 60 mlynedd).



# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

## Buddion Cymunedol

Bydd y Prosiect hefyd yn darparu Prosiect Solar Cymunedol Cerrynt Uniongyrchol 5MWp, a fydd yn cefnogi targedau Llywodraeth Cymru i ddarparu 1GW o gapasiti ynni adnewyddadwy dan berchnogaeth leol.

Bydd yr incwm a gynhyrchir gan y Prosiect Solar Cymunedol yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiectau a mentrau sydd o fudd uniongyrchol i gymunedau lleol a'r amgylchedd yn agos at y Prosiect. Ar sail y modelu ariannol cynnar presennol, rhagwelir y gallai'r **Prosiect Solar Cymunedol gynhyrchu elw o hyd at £247,000 y flwyddyn** o ganlyniad i'r gweithrediadau cynhyrchu trydan. Mae'r Ymgeisydd wedi rhannu'r ffigurau dangosol hyn at ddibenion yr ymgynghoriad statudol a bydd angen eu mireinio ymhellach wrth i'r datblygiad fynd rhagddo.

Bydd yr Ymgeisydd yn ceisio sefydlu Cronfa Budd Cymunedol ar y cyd â'r gymuned leol gan ddefnyddio'r refeniw solar cymunedol. Bwriedir i'r gronfa fod ar gael i'w buddsoddi mewn prosiectau a mentrau lleol. Gallai enghreifftiau o gynlluniau o'r fath gynnwys:

- Prosiectau i wella amwynderau cyhoeddus e.e. cyfleusterau chwaraeon a hamdden, neuaddau cymuned;
- Prosiectau amgylcheddol a bywyd gwyllt, yn cynnwys gwella seilwaith gwyrdd;
- Gweithgareddau i gynnwys y gymuned leol mewn gweithgareddau celfyddydol, chwaraeon a diwylliannol;

**Gallai Prosiect Solar Cymunedol gynhyrchu hyd at elw £247,000 yn flynyddol**

- Gweithgareddau i gefnogi plant a phobl ifanc;
- Prosiectau datgarboneiddio a chynaliadwyedd; a
- Hyfforddiant swyddi a sgiliau.

Mae'r Ymgeisydd yn gweithio gyda Menter Môn, menter gymdeithasol nid-er-elw sy'n darparu amrywiaeth o gynlluniau ledled Cymru, a Chyngor Sir Ynys Môn i sicrhau y bydd y gronfa'n hygyrch, ac y bydd manteision yn cael eu gwireddu drwy gydol oes weithredol y Prosiect.

Gallai elfen perchnogaeth gymunedol y cynllun arwain at gyfleoedd i gymunedau lleol ddefnyddio rhywfaint o'r tir solar cymunedol. Mae hyn wrthi'n cael ei archwilio, gyda defnydd posibl fel ymweliadau addysgol yn cael ei ystyried, ond yn y pen draw bydd yn dibynnu ar leoliad y Prosiect Solar Cymunedol (p'un a yw'n hygyrch yn gorfforol) a'r cytundeb terfynol gyda Menter Môn.

# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

## Buddion Economaidd, Cyflogaeth a Sgiliau

Bydd y Prosiect yn creu amrywiaeth o gyfleoedd cyflogaeth, sgiliau a chadwyn gyflenwi. Bydd y rhan fwyaf o gyfleoedd gwaith uniongyrchol yn cael eu creu yn ystod y cam adeiladu. **Rhagwelir y bydd y Prosiect yn darparu tua 1,320 o gyfleoedd gwaith adeiladu i gyd, gyda gweithlu o tua 650 ar ei fwyaf**. Bydd cyfleoedd cyflogaeth eraill hefyd yn cael eu creu drwy gadwyn gyflenwi'r Prosiect a gwariant gweithwyr ar lety dros dro a gwasanaethau lleol. **mcangyfrifir y bydd 1,110 o swyddi'n cael eu cefnogi drwy bryniannau'r gadwyn gyflenwi (swyddi anuniongyrchol a gwariant lleol (swyddi ysgogedig) yn ystod y cyfnod adeiladu.**

Bydd y Prosiect hefyd yn creu cyfleoedd i bobl leol, yn ogystal â sicrhau bod busnesau lleol yn cymryd rhan yn y gadwyn gyflenwi. Mae mentrau sy'n datblygu wedi cael eu llywio drwy ymgysylltu â Chyngor Sir Ynys Môn a rhanddeiliaid allweddol eraill fel Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, Grŵ p Llandrillo Menai, M-SParc a Phrifysgol Bangor. Mae'r mentrau hyn, sy'n cael eu hamlinellu'n fanylach yn y Cynllun Rhagarweiniol ar Gyflogaeth, Sgiliau a'r Gadwyn Gyflenwi, yn cael eu datblygu o gwmpas:

- Cymryd rhan weithredol yng ngweithgor Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn sy'n canolbwyntio ar gydweithio ar ganlyniadau sgiliau a chyflogaeth i drigolion yr Ynys;
- Cynyddu cyfranogiad busnesau lleol a datblygu gweithlu medrus ar gyfer ynni adnewyddadwy;



# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

## Buddion Economaidd, Cyflogaeth a Sgiliau (parhad)

- Hyrwyddo addysg a hyfforddiant Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg (STEM); a
- Hybu'r Gymraeg a'i diwylliant.

**Yn ystod y cam gweithredu, disgwylir y byddai angen rhwng 10 a 12 o weithwyr amser llawn ar y Prosiect.** Disgwylir i gyfleoedd cyflogaeth achlysurol gael eu creu drwy ofynion i osod rhai paneli a chelloedd BESS newydd (gweithgareddau ar wahân i waith cynnal a chadw arferol) drwy gydol oes y Prosiect. Bydd y swyddi a gefnogir hefyd yn cyfrannu at ddatblygu sgiliau hirdymor trigolion lleol, gan helpu i fynd i'r afael â phrinder sgiliau sydd wedi'i nodi yn y sector adnewyddadwy a charbon isel.

O ran allbwn economaidd, **amcangyfrifir y byddai'r Prosiect yn cynnal £1.6 miliwn i £1.9 miliwn o weithgarwch economaidd uniongyrchol y flwyddyn**[10]. Wrth ystyried effeithiau'r gadwyn gyflenwi a gwariant lleol, amcangyfrifif y bydd y Prosiect, **drwyddo draw, yn creu cyfraniad economaidd gros o £5.5 miliwn i £6.5 miliwn y flwyddyn i'r economi.**



10 Solar Energy UK, N/A. Photovoltaic Memorandum of Agreement

# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

### Buddion Economaidd, Cyflogaeth a Sgiliau (parhad)

Mae ardrethi busnes yng Nghymru yn dreth a godir ar eiddo annomestig. Bydd y Prosiect yn darparu refeniw ychwanegol i Lywodraeth Cymru drwy ardrethi busnes. Yng Nghymru, cyfrifir taliadau ardrethi busnes ar ddatblygiadau solar ar werth fesul £6,600 y MW y flwyddyn. **Byddai hyn yn cyfateb i oddeutu £2.4 miliwn a gynhyrchir mewn taliadau ardrethi busnes bob blwyddyn i Lywodraeth Cymru, yn seiliedig ar 360MW.**

Mae ffermydd solar yn cynnig cyfle deniadol i ffermwyr i arallgyfeirio incwm, gan eu bod yn cynnal sawl defnydd ar dir drwy gynhyrchu ynni glân a darparu cyfleoedd pori i dda byw. Byddai cytundebau ariannol ar waith gyda thirfeddianwyr lleol. Gallai'r incwm rhent ychwanegol hwn a gâi ei ddarparu i dirfeddianwyr olygu y bydd swyddi amaethyddol ymylol (a fyddai fel arall yn debygol o fod yn gostwng o ran nifer) yn cael eu cadw ar Ynys Môn. Mae'r dull hwn yn cynnig ffrwd refeniw atodol i dirfeddianwyr, gan wella cydnerthedd economaidd.

Mae cytundebau ariannol yn gweithredu fel buddsoddiad yn yr economi leol a allai hybu gwariant defnyddwyr a thrwy hynny greu swyddi ysgogedig. Ar ôl cymryd rhagdybiaethau treth i ystyriaeth a chyfran yr incwm a fyddai'n debygol o gael ei wario'n lleol ar sail categorïau nwyddau a gwasanaethau gwariant aelwydydd, amcangyfrifir y gallai rhwng £800,000 a £1 miliwn gael ei wario'n lleol y flwyddyn, gan gefnogi busnesau lleol a, thrwy hynny, swyddi. Drwy ragdybio allbwn fesul gweithiwr ar Ynys Môn, awgrymir y gallai rhwng 35 a 45 o swyddi gros ysgogedig gael eu cefnogi'n lleol yn ystod y cam gweithredol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn yn yr economi leol gan yr Ymgeisydd.



Mae'r Hen Safle Depo Olew yn Rhosgoch yn cael ei archwilio fel lleoliad posibl ar gyfer Prosiect Solar Cymunedol BESS a 5MW

Yn amodol ar leoliad terfynol y Prosiect Solar Cymunedol, mae gan y Prosiect y potensial i gyd-fynd ag amcanion Porthladd Rhydd a chefnogi twf economaidd yn anuniongyrchol ar safle'r Cyn-Ddepo Olew yn Rhosgoch drwy wella apêl a hyfywedd masnachol y safle. Mae'r cynigion dylunio presennol yn edrych ar y potensial i leoli'r System Storio Ynni Batri a'r Prosiect Solar Cymunedol 5MW ar y safle hwn, gyda lle ar ôl ar gyfer cynigion posibl eraill i gyflwyno defnyddiau cyflogaeth ar y safle. Gallai hyn fod yn gynigion ar gyfer defnydd cyflogaeth ynni-ddwys o ystyried y potensial i wifren breifat gael ei darparu gan y System Storio Ynni Batri. Mae cyswllt â'r tirfeddiannwr a Chyngor Sir Ynys Môn yn parhau ynghylch y cynigion ar gyfer safle'r Cyn-Ddepo Olew.

# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

## Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth

Gan ddefnyddio dull seiliedig ar ecosystemau o ddarparu manteision net o ran bioamrywiaeth, bydd y Prosiect yn edrych ar gyfleoedd i sicrhau'r canlyniadau amgylcheddol mwyaf cadarnhaol a nodwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid a chanlyniadau arolygon amgylcheddol parhaus. Bydd y cynigion hefyd yn cael eu llywio gan Ddatganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru[11] sy'n tynnu sylw at gyfleoedd a manteision sy'n deillio o fabwysiadu dull seiliedig ar le o reoli a gwella ecosystemau. **Er mwyn sicrhau bod manteision seilwaith gwyrdd yn cael eu gwireddu'n agos at ble mae effeithiau posibl yn cael eu nodi, bydd y Prosiect yn defnyddio Egwyddorion Dylunio i wreiddio'r dull hwn yn y dyluniad, a fydd yn cael ei reoli drwy gynlluniau rheoli a gyflwynir gyda'r Cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.**

Bydd y Prosiect yn ceisio creu seilwaith gwyrdd sy'n sicrhau nifer o ganlyniadau buddiol i bobl a natur. Gallai enghreifftiau o seilwaith gwyrdd amlswyddogaethol gynnwys coridor ecolegol sydd hefyd yn gweithredu fel llwybr hamdden gyda'r manteision posibl o ran iechyd corfforol a meddyliol, plannu coetir gwlyb sy'n cynnal draenio cynaliadwy, ac adfer cloddiau mewn ffordd sy'n cefnogi sgiliau lleol traddodiadol. Mae'r Prosiect hefyd yn edrych ar gyfleoedd i gefnogi uchelgeisiau ehangach ar gyfer yr ardal leol, fel galluogi ailddefnyddio Rheilffordd Canol Môn, hen reilffordd segur, ar gyfer hamdden os yw hynny'n ymarferol.

11 Natural Resources Wales / North West Wales Area Statement



# 5. Buddion a ddarperir drwy'r Prosiect

**Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth (parhad)**

Mae manylion y gwelliannau arfaethedig o ran seilwaith gwyrdd a bioamrywiaeth sy’n cael eu darparu gan y Prosiect yn cael eu datblygu ar hyn o bryd, ond gallai’r cynigion gynnwys creu llwybrau caniataol newydd i gysylltu cymunedau â mannau gwyrdd a naturiol, gwella’r rhwydwaith presennol o hawliau tramwy cyhoeddus, cyfleoedd ar gyfer mannau tyfu cymunedol a chymryd rhan mewn rheoli tirwedd. Gallai gwelliannau bioamrywiaeth posibl gynnwys creu coetir a phrysgwydd, nodweddion cynefin, naturioleiddio cyrsiau dŵ r, ac adfer ffiniau caeau sydd wedi dadfeilio. Bydd y gwelliannau hyn yn digwydd mewn Ardaloedd Lliniaru a Gwella yn ogystal â chaeau gydag araeau ffotofoltäig neu dir amaethyddol sy’n cael ei gadw.

Mae’r Prosiect yn creu cyfle i reoli’r dirwedd yn gynaliadwy ar raddfa eang ar draws nifer o ddaliadau tir drwy gydol oes y prosiect.  Mae hyn yn cyd-fynd â thema Datganiad Ardal Gogledd-orllewin Cymru, Cefnogi Rheoli Tir yn Gynaliadwy.



*Syniadau i'w harchwilio gyda chymunedau*

# 6. Dull o ymgysylltu yn y dyfodol

Mae'r Adroddiad Drafft hwn ar Fuddion Cydweithredol yn ddogfen fyw a fydd yn cael ei diweddaru drwy'r broses Gorchymyn Cydsyniad Datblygu mewn ymateb i ymgysylltu â rhanddeiliaid, y gymuned ac ymgyngoreion statudol. Mae wedi cael ei lywio drwy drafodaethau ag amryw o ymgyngoreion a chymunedau lleol i helpu i ddatblygu dealltwriaeth o ba fuddion a geisir, a pha fuddion y gellir eu gwireddu.

el rhan o ymrwymiad yr Ymgeisydd i gynnal deialog agored a thryloyw gyda'r gymuned leol, ac i greu'r buddion cymunedol, economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol mwyaf posibl, mae'r Ymgeisydd yn gofyn am adborth ar ei gynigion drafft.

Gellir darparu adborth drwy Ffurflen Adborth Ymgynghoriad Prosiect Maen Hir drwy wefan y prosiect www.lightsourcebp.com/maenhir-cymraeg (Cymraeg and www.lightsourcebp.com/maenhir-english (Saesneg).

Bydd fersiwn derfynol o'r ddogfen ar ffurf adroddiad, wedi'i llywio a'i diweddaru drwy'r ymgynghori gydol y broses ddatblygu, yn cael ei chyflwyno gyda'r Cais llawn.



L D Ā D E S I G N

Hanover House

Queen Charlotte Street

Bristol BS1 4EX

United Kingdom

+44 (0) 110 203 3628

www.lda-design.co.uk

LDA Design Consulting Ltd

Registered No: 09312403

17 Minster Precincts, Peterborough PE1 1XX

---

LDA Design is a ISO 9001 / ISO 14001 accredited company